CYSTADLEUAETH PERFFORMIO 2023 - 2024: MEWN CYMERIAD

Monolog CRANOGWEN

MAE CRANOGWEN YN YMDDANGOS AR Y LLWYFAN – YN GADARN AC YN GRYF

Morwres. Ysgolfeistres. Bardd. Darlithydd. Pregethwr. Golygydd. Ymgyrchydd. Ffrind.

Do – ges i fy nabod wrth yr enwe 'ma i gyd! Mi deithies i'r byd yn addysgu a châl fy addysgu… ond y lle bach hwnnw wrth y môr ble ges i fy magu roiodd siap i 'nghymeriad i. Llangrannog! Wyt ti'n rhan ohona'i am byth!

MAE'N CAU EI LLYGAID AC YN GWENU'N BRAF AM EILIAD

Fe ddechreuodd pethe pan o'n i'n ddeg oed...

MAE'N CODI'I LLAW I GYSGODI'I LLYGAID – FEL MORWR YN EDRYCH AR DRAWS Y MOR. MAE HI'N 10 OED UNWAITH ETO

Dat! Daaaaat!

Mae'n hen bryd i Dat ddod gartre. Gobeitho nad yw'r môr mawr 'na'n rhy arw heddi. Bydd e 'nôl heno siŵr o fod. 'Nôl yn Nol-goy Fach, a ninne'n deulu bach cyfan unwaith 'to am damed bach.

Dwi'n mynd i fynd 'da fe ryw ddiwrnod. Dwi'n mynd i weld y byd! A dwi'n mynd i weld yr holl lefydd dwi wedi dysgu amdanyn nhw wrth Huw Dafis.

"Sarah Jane Rees! Lawr o'r goeden 'na ar unwaith! Dwi ddim wedi sefydlu'r ysgol 'ma i gâl merch mor glyfar â chi yn whare dwlu â'i thalente! Ma'ch pen chi'n llawn syniade hanner-call. Odych chi ISHE dysgu, Sarah?"

Ishe dysgu?

Dodd 'na ddim byd yn y byd yr o'n i'i ishe'n fwy, ac rodd y brenin ei hun – ein hysgolfeistr caredig ni – wedi gweud bod talent a gallu 'da fi! Fi! Sarah Jane o Dol-goy Fach!!

A ‘na ddiwedd arni wedyn!

“Roces!” bydde Enid fy ffrind yn gweiddi arna’i. “Ti’n bihafio’n rhy debyg i dy frodyr mowr. Ti’n wyllt fel anifel. Rho dy sgidie am dy drâd – a bihafia fel merch!”

Bihafio fel merch? A shwt yn union ma merch i FOD i fihafio?

SAIB

Dim ond merched dwi’n gofio pan o’n i’n tyfu lan. Odd y dynion i gyd ar y môr.

Dyna Esther Judith. O’n i’n gallu trafod unrhyw beth ‘da Esther Judith. Falle’i bod hi’n hen iawn a bod dim tŷ nac arian gyda hi, a’i bod hi’n gorfod byw yn hanner arall tŷ ni, ond rodd hi’n gyfoethog iawn yn ‘i ffordd. Rodd hi’n gallu gweld pethe nad odd llawer o bobol erill yn gallu’u gweld na’u deall byth.
A Mam wedyn. O... o’n i’n caru Mam. Bydden i’n drychid yn hir arni yng Nghapel Penmorfa weithie. Er ei bod hi ‘di blino, rodd hi’n edrych yn ifanc rywffordd, a’i “Diolch Iddo” a’i “Amens” i Dduw yn llifo o’i gwefuse hi fel yr afon Hawen. Rodd hi’n dod yn fyw ‘da’r merched erill yn y capel.

O’n i’n teimlo mor saff gyda nhw i gyd. Ac wrth i fi edrych ar Mam yn eu canol nhw a’i chlywed hi’n canu’r emyn

“Yn y Dyfroedd mawr a’r Tonnau…”

Y MAE’N EI STOPIO EI HUN. MAE’N RHEDEG I NÔL COPI O’R GEIRIADUR MAWR

O’n i’n gwbod mai Mam berswadiodd Dad yn y diwedd.

MAE’N AGOR Y LLYFR MAWR AC YN EI AROGLI. GWENU. EI GYFFWRDD FEL PETAI’N AUR

Odd rhaid i fi fegian yn galed am hwn. Llefen a llefen – a finne’n gwbod pa mor ddrud odd e. Ond rodd yr ysgol newydd yn llofft Capel y Wig wedi dihuno rhwbeth yndda’i. Ac o’r diwedd fe ges i e. Y Dictionary! Bydden i wedi mynd heb fwyd pe bydde rhaid, er mwyn ei gâl e...

A wedyn, pan o'n i'n un deg tri, mi ges i sioc 'y mywyd.

YN SYDYN MAE'N CAU'R LLYFR YN GLEP AC YN NEIDIO AR EI THRAED. MAE HI'N 13 OED UNWAITH ETO

Beth? BETH? Na! Allwch chi ddim neud hyn i fi. Allwch chi ddim! Dwi ddim wedi fy neud i winio dillad. Dwi'n begian arnoch chi!

Mam! Dat! Grondwch arna'i. Sai'n moyn mynd yn brentis gwinio. Ble ma'r antur yn hynny?

YN AMLWG NID YW'N CAEL EI FFORDD EI HUN. MAE HI'N EISTEDD AR GADAIR YN ANFODLON, YN CODI DILLEDYN A DECHRAU PWYTHO. MAE'N TUCHAN YN UCHEL

Wrth wthio'r nodwydd mewn i'r deunydd ac edrych ar yr edafedd yn llithro'n ara bach drwy dwll fy nyfodol... o'n i'n gwbod na allen i neud hyn rhagor. Nid fan hyn o'n i i fod.

O'n i'n gwbod hefyd y bydde Dat yn whilo am griw ar ei gwch cyn bo hir.

SAIB. YNA, MAE'N GWENU'N DDIREIDUS

Dwi'n mynd i'r môr. A na'i diwedd hi!

When do we sail, Captain Rees?